Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MON**
**ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST**

---

8 Rhagfyr/December, 2016

At : Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn fel ymddiriedolwr
Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

Annwyl Aelod,

**CYFARFOD O'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

Gofynnir i chwi fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth Elusenol Ynys Môn ar **ddydd Iau, 15 Rhagfyr 2016 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni am 10.00 o'r gloch y.b.** i ystyried y materion a nodir yn y rhaglen atodol.

Yr eiddoch yn gywir,
*Dr Gwynne Jones*
**YSGRIFENNYDD**

---

To : Members of the Isle of Anglesey County Council as Trustee
of the Isle of Anglesey Charitable Trust

Dear Member,

**MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY CHRITABLE TRUST**

Your attendance is requested at a meeting of the Isle of Anglesey Charitable Trust on **Thursday, 15 December, 2016 to be held at the Council Chamber, Council Offices, Llangefni at 10.00 a.m.,** to consider the matters noted in the attached agenda.

Yours sincerely,
*Dr Gwynne Jones*
**SECRETARY**

---

**Ysgrifennydd/Secretary :** Dr Gwynne Jones **Trysorydd/Treasurer :** Mr. Marc Jones

**Swyddfa'r Sir/County Offices,**
**Llangefni, Ynys Môn. LL77 7TW. Tel: (01248) 750057**

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn a gafwyd ar 13 Medi, 2016.

3 **ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL** (Tudalennau 5 - 10)

**Pwyllgor Grantiau Cyffredinol**

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol a gafwyd ar 13 Hydref, 2016.

**Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau**

Cyflwyno, i'w cadranhau, gofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau a gafwyd ar 1 Tachwedd, 2016.

4 **GRANTIAU MAWR - SEFYLLFA DDIWEDDARAF** (Tudalennau 11 - 12)

Cyflwyno adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

5 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig ei rhyddhau fel y diffinnir hi yn Atodlen 12A (Categori 16) y Ddeddf."**

6 **ADOLYGIAD O DREFNIADAU LLYWODRAETHIANT YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** (Tudalennau 13 - 56)

Cyflwyno adroddiad gan yr Ysgrifennydd mewn perthynas â'r uchod.

# Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Medi 2016

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Lewis Davies, R Dew, Jim Evans, K P Hughes, T.V. Hughes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Ll Jones, G O Jones, Richard Owain Jones, R.Meirion Jones, Alun W Mummery, R G Parry OBE, Dylan Rees, P S Rogers, Alwyn Rowlands a Dafydd Rhys Thomas |
| **WRTH LAW:** | Ysgrifennydd<br>Trysorydd<br><br>**Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (cyfeirir atynt o hyn ymlaen wrth deitlau eu swyddi gyda CSYM)**<br><br>Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol a Chytundebau)<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Jeff M. Evans, John Griffith, T Ll Hughes, H E Jones, A M Jones, Raymond Jones, J A Roberts and Ieuan Williams |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | |

---

**1** **ETHOL CADEIRYDD**

Ail-etholwyd Mr T. Victor Hughes yn Gadeirydd ar Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn.

Diolchodd Mr Hughes i'r Ymddiriedolaeth Elusennol am eu hyder ynddo.

**2** **ETHOL IS-GADEIRYDD**

Ail-etholwyd Mr. T. Ll. Hughes yn Is-Gadeirydd ar Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn.

**3** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**4** **COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2016.

**5** **DYRANNU GRANTIAU BACH 2016/17**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

Adroddodd y Trysorydd bod anghysonderau yng ngeiriad penderfyniadau cyfarfodydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol a gynhaliwyd ar 27 Ionawr a 15 Mawrth 2016 a gododd oherwydd geiriad yr adroddiadau a baratowyd gan y Swyddogion ac sydd wedi arwain at oedi o ran hysbysu sefydliadau am ganlyniad eu cais gan ei bod bellach yn aneglur a oes angen i'r Ymddiriedolaeth lawn gymeradwyo penderfyniad y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol. Gofynnwyd i'r Ymddiriedolaeth benderfynu a yw penderfyniad y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol mewn perthynas â Grantiau Bach angen cymeradwyaeth yr Ymddiriedolaeth Elusennol lawn yntau a yw'r penderfyniad yn cael ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol.

**PENDERFYNWYD dirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol i gymeradwyo ceisiadau am Grantiau Bach ac felly ni fydd angen i'r Ymddiriedolaeth lawn ond nodi cofnodion y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol o hyn ymlaen.**

## 6 ADRODDIAD O IS-BWYLLGORAU'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL - PWYLLGOR GRANTIAU CYFFREDINOL

Nodwyd cofnodion y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2016.

## 7 Y BROSES DYFARNU GRANTIAU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

Adroddodd y Trysorydd fod yr Ymddiriedolaeth, yn ddiweddar, wedi dyfarnu grantiau mawr yn ogystal â grantiau bach i sefydliadau sy'n gweithio ar Ynys Môn. Yn y gorffennol dyfarnwyd grantiau ar sail achos wrth achos wrth i'r Ymddiriedolaeth dderbyn ceisiadau, ond ym mis Ionawr 2016 cyflwynwyd proses fwy ffurfiol. Cynhwyswyd crynodeb o'r grantiau mawr a ddyfarnwyd yn ddiweddar yn yr adroddiad. Dywedodd y Trysorydd bod nifer o sefydliadau eraill yn awr yn gofyn sut y gallent wneud cais am grantiau mawr, ac mae cwestiynau wedi eu gofyn ynghylch a yw ceisiadau am grant i dalu costau rhedeg yn gymwys ac a oes gan sefydliad sydd wedi derbyn grant bach hawl i wneud cais am grant mawr, ac i'r gwrthwyneb. Os mai bwriad yr Ymddiriedolaeth yw dyfarnu grantiau mawr yn flynyddol gan ddefnyddio'r twf yng ngwerth cyfalaf buddsoddiadau yna mae angen proses mwy ffurfiol sydd wedi ei diffinio'n glir er mwyn sicrhau fod grantiau'n cael eu dyfarnu mewn modd teg, gyda chyfleoedd yn agored i bawb.

Yn 2016 dynodwyd swm o £200,000 gan yr Ymddiriedolaeth fel swm sydd ar gael ar gyfer grantiau mawr. Gwnaethpwyd y penderfyniad mewn cyfarfod llawn o'r Ymddiriedolaeth ar sail argymhelliad gan y Trysorydd a oedd wedi ymgynghori â Rheolwyr Buddsoddi HSBC. Seiliwyd y swm ar ddynodi 20% o'r twf disgwyliedig yng ngwerth cyfalaf y gronfa yn ystod 2016. Er mwyn caniatáu amser digonol i ymgymryd â'r broses gais ffurfiol mae angen gwneud penderfyniad ynghylch y swm sydd ar gael ar gyfer grantiau mawr yn gynharach yn y flwyddyn ariannol. Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2016, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth bod y penderfyniad ynghylch y swm sydd ar gael yn flynyddol ar gyfer grantiau mawr yn cael ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Buddsoddiadau a Chontractau. Argymhellir bod y penderfyniad yn cael ei wneud yn flynyddol yng nghyfarfod mis Tachwedd y Pwyllgor Buddsoddiadau a Chontractau ac yn seiliedig ar argymhelliad gan y Trysorydd mewn ymgynghoriad â Rheolwyr Buddsoddi HSBC.

Datganodd y Trysorydd nad yw'r Ymddiriedolaeth lawn wedi llunio na chytuno ar gytundeb cyfreithiol safonol ffurfiol; roedd cytundeb cyfreithiol drafft ynghlwm i'r adroddiad yn Atodiad 1 sydd yn amlinellu pa ddefnydd y dylid ei wneud o'r arian grant, pa dargedau perfformiad a osodwyd, sut fydd y prosiect yn cael ei fonitro ac yn amlinellu hawliau mynediad yr Ymddiriedolaeth ac yn caniatáu i'r grant gael ei adennill os penderfynir bod hynny'n angenrheidiol. Nodwyd y bydd rhai rhannau o'r cytundeb yn newid ar gyfer pob grant a ddyfernir. Nododd bod yr Ymddiriedolaeth angen gwarant mewn perthynas â phob grant unigol, er mwyn sicrhau bod modd adennill y grant gan sefydliad petai'r angen yn codi. Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod modd amrywio lefel y warant ac amlygwyd hyn yn yr adroddiad.

Mewn perthynas â grantiau bach, Swyddog o fewn y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes, gyda chymorth staff y Gwasanaeth Cyllid, sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiad ag amodau'r grant. Mae'r gwaith monitro ar gyfer y grantiau bach fel arfer yn weddol syml a gellir cynnal ymweliad hefyd i gadarnhau bod yr asedau a brynwyd yn parhau i fod ym mherchnogaeth yr ymgeisydd. Fodd bynnag, mae prosiectau wedi'u hariannu gan grantiau mawr yn fwy cymhleth ac efallai y bydd angen craffu ar gyfrifon ariannol yr ymgeisydd a bydd gofyn monitro dros gyfnod hirach wrth i'r prosiect a ariennir fynd rhagddo. Nododd y Trysorydd bod angen gwneud penderfyniad ynghylch a oes angen i'r Ymddiriedolaeth gyllido adnodd yn y tymor byr i fonitro a gweinyddu'r grantiau mawr a roddir gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol.

Yn dilyn trafodaethau gan Aelodau'r Ymddiriedolaeth **PENDERFYNWYD :-**

- **I ddirprwyo’r penderfyniad i’r Pwyllgor Buddsoddi a Grantiau i benderfynu ar lefel y cyllid fydd ar gael i ariannu grantiau mawr ym mis Tachwedd yn flynyddol;**
- **I wahodd ceisiadau am grantiau mawr gan sefydliadau drwy gyfrwng hysbysebion cyhoeddus mewn papurau newydd lleol a gwefan y Cyngor, gan gychwyn ym mis Tachwedd gyda dyddiad cau yn hwyr ym mis Ionawr;**
- **Bod ceisiadau am grantiau mawr yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Adfywio a fydd yn gwneud argymhellion i’r Ymddiriedolaeth lawn ym mis Mawrth yn flynyddol;**
- **Cadarnhau y caniateir i sefydliadau wneud ceisiadau am gymorth gyda chostau rhedeg ond bydd rhaid i’r sefydliad ddangos yn glir yn eu cais sut fydd y sefydliad yn sicrhau hyfywedd ariannol y prosiect unwaith y bydd arian gan yr Ymddiriedolaeth wedi dod i ben;**
- **Bod gan sefydliad sydd wedi derbyn grant bach yn y gorffennol yr hawl i wneud cais am grant mawr ond nad oes gan sefydliad hawl i dderbyn grant bach a grant mawr mewn dwy flynedd olynol ac mai dim ond un grant bach ac un grant mawr a ddyfernir mewn unrhyw gyfnod treigl o bum mlynedd;**
- **Bod yr Ymddiriedolaeth yn derbyn y cytundeb grant safonol ac yn dirprwyo i’r Swyddog Monitro a Phennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Adran 151 y Cyngor yr hawl i ddiwygio’r cytundeb yn ôl yr angen i fodloni amgylchiadau unigol unrhyw grant.**
- **Bod yr Ymddiriedolaeth yn dirprwyo i’r Swyddog Monitro a Phennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Adran 151 y Cyngor yr hawl i benderfynu lefel y warant sydd ei angen ar gyfer pob grant unigol a ddyfernir;**
- **I ddirprwyo awdurdod i Gadeirydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol a’r Trysorydd mewn perthynas ag ariannu costau adnoddau tymor byr ychwanegol i gynorthwyo i fonitro’r 10 grant presennol a ddyfarnwyd ac i ymdrin ag unrhyw grantiau pellach a ddyfernir hyd nes y gwneir penderfyniad am llywodraethiant yr Ymddiriedolaeth yn y dyfodol.**

## 8 EITEM SY’N DEBYGOL O GAEL EI THRAFOD YN BREIFAT – CAU ALLAN Y WASG A’R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD mabwysiadau’r canlynol :-**

**"Dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei datgelu a honno’n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm. "**

## 9 ADOLYGIAD O DREFNIADAU LLYWODRAETHIANT YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN

Cyflwynwyd – adroddiad gan yr Ysgrifennydd mewn perthynas â’r adolygiad o drefniadau llywodraethiant Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn.

**PENDERFYNWYD :-**

- **I gytuno, mewn egwyddor, fod Sefydliad Elusennol Corfforedig (SEC) newydd yn cael ei ystyried i ymgymryd â llywodraethiant Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn a gofyn i Gyfreithwyr Browne Jacobsen gyflwyno argymhellion manwl ar gyfer SEC yng nghyfarfod nesaf yr Ymddiriedolaeth lawn;**
- **Tra bod y Cyngor yn parhau i fod yn Ymddiriedolwr ar Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn, ei fod yn derbyn yswiriant ‘indemniad buddiannau ymddirieolwr’ (*benefit of trustee indemnity*) yn unol â chyngor Cyfreithwyr Browne Jacobsen. Dirprwyir yr hawl felly i’r Trysorydd gaffael yswiriant o’r fath yn flynyddol ar y telerau gorau sydd ar gael yn rhesymol a bod cost yswiriant o’r fath yn cael ei dalu o gronfeydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn;**
- **Bod Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yn cytuno i ad-dalu’r Cyngor am yr amser a dreuliwyd gan Swyddogion y Cyngor Sir ar waith sy’n gysylltiedig â’r Ymddiriedolaeth Elusennol.**

**10** **EITEM SY'N DEBYGOL O GAEL EI THRAFOD YN BREIFAT – CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadau'r canlynol :-**

**"Dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei datgelu a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm. "**

**11** **GEMAU'R YNYSOEDD YNYS MÔN**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

**PENDERFYNWYD cytuno fod y cytundeb ariannu gwreiddiol yn cael ei adolygu fel y gellir rhoi £10k o'r dyfarniad grant o £210k tuag at swydd Rheolwr Prosiect ar gyfer Bid Gemau'r Ynysoedd 2025.**

**T.V. HUGHES**
**Cadeirydd**

# Pwyllgor Grantiau Cyffredinol

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2016

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Jeffrey M.Evans (Cadeirydd)<br>Lewis Davies (Is-Gadeirydd)<br><br>R Dew, Jim Evans, Victor Hughes, Llinos Medi Huws, Richard Owain Jones and Dylan Rees |
| **WRTH LAW:** | **Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (cyfeirir atynt o hyn ymlaen wrth deitlau eu swyddi gyda CSYM)**<br><br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,<br>Cymhorthydd Gweinyddol (CS),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Neb |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |

---

**1 DATGAN BUDDIANNAU**

Datganodd Mr. T. Ll. Hughes fuddiant personol mewn perthynas â chais 02 (Clwb Pêl-droed Holyhead Hotspurs) a ni chymerodd ran yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf, 2016.

**3 GRANTIAU BLYNYDDOL 2016/17**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

Adroddwyd bod y Pwyllgor, yn ei gyfarfod ar Orffennaf 13eg, 2016, wedi penderfynu gohirio ystyried 8 cais er mwyn casglu gwybodaeth bellach y gofynnwyd amdani gan y Pwyllgor. Roedd manylion am y ceisiadau ynghlwm i'r adroddiad yn Atodiad A a B.

Dywedodd y Trosorydd fod yr Ymddiriedolaeth Elusennol lawn a gynhaliwyd ar Fedi 13eg, 2016 wedi penderfynu dirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol i gymerdwyo ceisiadau am Grantiau Bach ac felly ni fydd angen i'r Ymddiriedolaeth Elusennol llawn ond nodi cofnodion y Pwyllgor Grantiau cyffredinol o hyn ymlaen.

**Yn dilyn trafodaethau ar bob cais PENDERFYNWYD cymeradwyo'r symiau ar gyfer Cyfleusterau Cymunedol – Grantiau Cyfalaf 2016/17 fel a ganlyn:-**

| | | |
|---|---|---|
| **01 3D KIDS** | I alluogi gweithgareddau cymdeithasol ar gyfer Plant ac Oedolion (0-25) a'u Teuluoedd | **£2,100** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 02 | **Clwb Pêl-droed Holyhead Hotspur** | Adnewyddu'r ardal i wylwyr | **£3,900**<br><br>*(yn ddibynnol bod prydles y tir wedi'i chytuno â'r perchnogion newydd)* |
| 06 | **Parti Meibion Bara Brith** | Arian i greu CD | **Tynnwyd y cais yn ôl** |
| 15 | **ADLAIS** | Cefnogaeth i ariannu cyngerdd Pen-blwydd y côr yn 25 | **DIM**<br><br>*(ddim yn gymwys)* |
| 17 | **PANTRI 6** | Arian ar gyfer arwyddion, peintio, gostwng y nenfwd, inswleiddio, inswleiddio'r waliau, gwres canolog gosod toiled ar gyfer yr anabl, tudalen we a chyflog un swydd | **DIM**<br><br>*(ni ymatebodd y sefydliad i'r cynnig gan y Swyddogion i drafod y cais yn unol â chais y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol)* |
| 20 | **Cyngor Cymuned Llannerch-y-medd** | Diogelu'r Rhandiroedd Cymunedol yn unol â gofynion y Brydles ac amodau Iechyd a Diogelwch | **£1,850** |

*(Ymatalodd Llinos M. Huws ei phleidlais oherwydd ei bod yn bresennol yng nghyfarfodydd Cyngor Cymuned Llannerch-y-medd yn rhinwedd ei swydd fel Cynghorydd Sir)*

| | | | |
|---|---|---|---|
| 26 | **Cymdeithas Ardal Chwarae Llanfaes** | Offer i greu ardal chwarae | **£4,984** |
| 36 | **Clwb Hwylio Brenhinol Ynys Môn** | Cyfraniad tuag at brynu cwch ddiogelwch | **£8,000** |

**Cais a adawyd allan o'r adroddiad gwreiddiol.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 37 | **Cwmni Cemaes Cyf.** | Gosod ffenestri newydd, gosod gwydr dwbl mewn drws allanol, rheiliau o flaen yr adeilad i atal cwympiadau a ffensys | **£7,664** |

**Mr. Jeff M Evans**
**Cadeirydd**

# Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Tachwedd 2016

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Mri. T.Ll. Hughes, Aled M. Jones, G.O. Jones, H. Eifion Jones a Alun W Mummery |
| **WRTH LAW:** | Trysorydd,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Mr. Dafydd Rhys Thomas |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr. T. Victor Hughes – Cadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn<br><br>Mr. Rupert Cecil, Cyfarwyddwr – Tîm Ymddiriedolaethau HSBC |

---

**1 ETHOL CADEIRYDD**

Ail-etholwyd Mr. H. Eifion Jones yn Gadeirydd.

Diolchodd Mr. Jones i'r Aelodau am eu hyder ynddo.

**2 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd Mr. G. O. Jones yn Is-Gadeirydd.

**3 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd, 2015.

**4 RHEOLI BUDDSODDI**

Cyflwynwyd – adroddiad HSBC Global Asset Management (UK) hyd at fis Hydref 2016.

Adroddodd y Cyfarwyddwr - Tîm Ymddiriedolaethau HSBC bod y tîm Rheoli Buddsoddi'n adrodd yn chwarterol ar berfformiad y Gronfa Ymddiriedolaeth. Roedd y portffolio werth £19,417m ar 30 Medi 2016. Amcangyfrifwyd y byddai'n cynhyrchu incwm o 3.5% gan roi rhagolwg incwm blynyddol o £680k. Dywedodd fod gwerth y gronfa wedi cynyddu 2.8% ymhellach ar 26 Hydref 2016 i £19,997m. Roedd y gronfa wedi perfformio'n well na thwf yr *ARC Peer Group* ar gyfer cronfeydd cyffelyb sy'n gweithredu ar lefel debyg o ran risg.

Ychydig iawn o newid a wnaed o ran dyrannu asedau yn ystod y chwarter. Nododd fod y marchnadoedd ecwiti yn ffafrio Japan ac Ewrop yn hytrach na'r Unol Daleithiau a'r DU. Mae portffolio'r Ymddiriedolaeth Elusennol wedi cynyddu yn dilyn buddsoddi yn y *Charities Service UK Growth and Income Fund*. Esboniodd hefyd bod y gronfa wedi elwa yn sgil lleihad yng ngwerth sterling yn dilyn canlyniad y refferendwm ar aelodaeth yr Undeb Ewropeaidd. Rhagdybir y bydd gwerth sterling yn parhau'n isel ac o ganlyniad bydd cyfraddau llog yn aros yn isel hefyd. Disgwylir y bydd marchnadoedd yn parhau i fod yn anwadal yn 2017.

Ar gyfer 2017, rhagwelir y bydd cynnyrch tymor hir rhwng 3.0% a 3.5% a fyddai'n cynhyrchu incwm o £773k. Rhagwelir y bydd twf cyfalaf yn 4.75% a fyddai'n arwain at gynnydd o £277k o safbwynt gwerth cyfalaf, er bod HSBC yn hyderus y byddant yn cyflawni twf o 5.75% yn ystod y cyfnod.

Darparwyd gwybodaeth fanwl bellach i'r Pwyllgor ynglŷn â dyrannu asedau a pherfformiad gwahanol elfennau o'r portffolio.

Roedd aelodau'r pwyllgor yn  dymuno cyfleu eu gwerthfawrogiad i dîm Rheoli Buddsoddi HSBC am berfformiad eithriadol cronfa'r Ymddiriedolaeth Elusennol.

**PENDERFYNWYD diolch i Gyfarwyddwr – Tîm Elusennau HSBC am fynychu'r cyfarfod ac i dderbyn yr adroddiad.**

## 5 DYRANNU CYLLID AR GYFER GRANTIAU MAWR

Cyflwynwyd – adroddiad y Trysorydd mewn perthynas â dyrannu cyllid ar gyfer grantiau mawr.

Dywedodd y Trysorydd, oherwydd bod cronfa'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i dyfu yn sgil taliadau llog blynyddol a difidendau, bod Aelodau yn awyddus i ddefnyddio peth o'r llog ar werth cyfalaf y gronfa i ddarparu arian er mwyn dyfarnu grantiau mawr ar sail fwy ffurfiol. Yn gynnar yn 2016 dyrannodd yr Ymddiriedolaeth swm o £200k, a oedd yn cyfateb i 20% o'r twf yng ngwerth cyfalaf y gronfa yn ystod y flwyddyn, i ariannu grantiau yn 2016. Dylid nodi bod risg bob amser y gall gwerth cyfalaf y gronfa ostwng ac y gallai dyrannu swm rhy uchel mewn cyfnod lle mae gwerth cyfalaf y gronfa yn tyfu gael effaith andwyol ar yr elw a geir o'r buddsoddiadau yn y dyfodol os bydd gwerth cyfalaf y gronfa yn dechrau gostwng yn sydyn.

Yng nghyfarfod yr Ymddiriedolaeth ar 13 Medi 2016, penderfynwyd dyrannu cyllid ar gyfer grantiau mawr a dirprwyo'r penderfyniad ynghylch maint y swm i'w ddyrannu i'r Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau. Yn dilyn y cyfarfod hwn, gweithredir proses ymgeisio ffurfiol i wahodd sefydliadau i gyflwyno ceisiadau am arian grant. Y bwriad yw y bydd y broses yn agored i sefydliadau gyflwyno ceisiadau rhwng Tachwedd 2016 ac Ionawr 2017, gyda'r penderfyniad ar ba sefydliadau fydd yn derbyn arian yn cael ei wneud ym mis Chwefror 2017.

Defnyddiwyd y fethodoleg a ganlyn i benderfynu gwerth y gronfa a glustnodir ar gyfer grantiau mawr:-

20% o wir dwf y flwyddyn flaenorol llai 20% o'r twf a ragdybiwyd ar gyfer y flwyddyn gyfredol

Ynghyd â (+)

Balans cronfa'r flwyddyn flaenorol na chafodd ei ddyrannu

Ynghyd â (+)

Unrhyw arian a ddyrannwyd o incwm sy'n weddill

Gan ddefnyddio'r dull hwn ar gyfer 2017, cyfrifwyd y gronfa a ddyrennir ar gyfer grantiau mawr fel a ganlyn :-

Twf yn 2016 = £2,300,000 *20% = £460,000 - £200,000 (dyrannwyd yn 2016) = £260,000

| | |
|---|---|
| Twf a ragwelir yn 2017 = £277,000 * 20% = | £56,000 |
| Balans yn 2016 – Cronfa heb ei dyrannu | £30,000 |
| Defnydd o Incwm | £4,000 |

Roedd Mr A. M. Jones yn ystyried, oherwydd bod y marchnadoedd ariannol yn parhau i fod yn anwadal yn dilyn Brexit ac ansicrwydd ynghylch twf i'r dyfodol, y byddai'n ddoethach dyrannu swm o £300k.

Yn dilyn trafodaethau **PENDERFYNWYD dyrannu £350,000 i gyllido grantiau mawr ac y byddai'r fethodoleg y manylwyd arni gan y Trysorydd yn cael ei defnyddio fel sail i benderfynu gwerth y gronfa ar gyfer grantiau mawr yn y blynyddoedd i ddilyn.**

Ataliodd Mr. A. M. Jones ei bleidlais.

**Mr. H. Eifion Jones**
**Cadeirydd**

This page is intentionally left blank

| YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** |
| **DYDDIAD:** | **15 RHAGFYR, 2016** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **ADRODDIAD AR Y SEFYLLFA DDIWEDDARAF** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y broses o wneud cais am grantiau mawr yn 2017/18.**<br>**Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am statws y grantiau mawr a ddyfarnwyd yn 2016/17.**<br>**Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr incwm buddsoddi ar gyfer 2016/17.** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **TRYSORYDD –**<br>**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** |
| **GWEITHREDU:** | **Gofynnir i'r Aelodau'r Ymddiriedolaeth i nodi cynnwys yr adroddiad** |

## 1 CEFNDIR

**1.1** Dyfarnwyd pump o grantiau mawr yn ystod 2016/17 a lansiwyd y broses ymgeisio ar gyfer 2017/18 yn ddiweddar.

**1.2** Mae'r adroddiad hwn hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am incwm o fuddsoddiadau.

## 2 GRANTIAU A DDYFARNWYD YN 2016/17

**2.1** Dyfarnwyd y grantiau mawr canlynol yn ystod Ionawr 2016:-

- Cwmni'r Fran Wen - £ 45,000
- Yr Eisteddfod - £ 37,500
- Menter Iaith - £ 50,000
- Cae Sioe Ynys Môn - £ 60,000
- Menter Gymdeithasol Llangefni - £ 37,500

**2.2** Ar ôl i'r Pwyllgor gymeradwyo'r Cytundebau Grant arfaethedig ar 13 Medi 2016, cyhoeddwyd cytundebau grant ffurfiol i Menter Iaith a Cwmni Frân Wen. Bu rhywfaint o lithriad yn y datblygiadau gyda Chae Sioe Môn ond mae eu cyfreithwyr yn adolygu'r cytundeb drafft ar hyn o bryd. Mae Menter Gymdeithasol Llangefni yn dal i aros am ganlyniad eu cais am arian Loteri ac ni fydd y contract yn cael ei gyhoeddi tan y cafwyd cadarnhad o'r arian cyfatebol.

**2.3** Cysylltwyd gyda'r Eisteddfod, ond ni fydd contract yn cael ei gyhoeddi tan yn nes at y digwyddiad yn 2017. Mae Trefnwyr yr Eisteddfod wedi nodi y bydd yna newid bach yn y ffordd y defnyddir y grant o gymharu â'r hyn a amlinellwyd yn eu cais. 'Roedd y cais gwreiddiol yn dweud y byddai'r grant yn cael ei ddefnyddio i helpu'r Eisteddfod gyrraedd ei tharged o £325,000 ar gyfer y gronfa leol a'r targed o £450,000 ar gyfer y gronfa nawdd corfforaethol. Gan eu bod wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran cyrraedd y targed ar gyfer y gronfa leol, mae'r Eisteddfod bellach yn bwriadu defnyddio mwy o'r grant (£27,500) fel nawdd corfforaethol gyda'r Ymddiriedolaeth yn noddi'r Eisteddfod ar y dydd Sadwrn a'r dydd Sul agoriadol. Bydd y cyllid hwn yn caniatáu gostwng y prisiau mynediad am y ddau ddiwrnod er mwyn rhoi cyfle i'r cyhoedd fynychu am bris is - fel arfer mae cyfran uchel yn drigolion lleol y sir sy'n cynnal yr Eisteddfod, a bydd o gymorth i annog lefelau diddordeb a phresenoldeb yn ystod yr wythnos. Cynhelir trafodaeth bellach gyda Phwyllgor Trefnu'r Eisteddfod ar y ffordd orau i roi cyhoeddusrwydd i gyfraniad yr Ymddiriedolaeth.

## 3 Y BROSES YMGEISIO AM GRANTIAU MAWR YN 2017/18

**3.1** Mae cyllideb o £350K wedi ei neilltuo ar gyfer grantiau mawr yn 2017/18. Lansiwyd y broses ymgeisio ym mis Tachwedd trwy wefan y Cyngor, Facebook a Twitter. Mae hysbysebion hefyd wedi ymddangos yn y Mail a'r Chronicle. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 6 Ionawr 2017.

**3.2** Gwahoddir ceisiadau am arian o dros £8,000 i gynorthwyo gyda chyllido prosiectau cyfalaf mawr neu gyllido gwasanaethau penodol a fydd o fudd i bobl Ynys Môn. Rhaid i geisiadau gwrdd ag un o'r meini prawf canlynol:-

- Cymorth i grwpiau dan anfantais;
- Adfywio'r economi leol;
- Gwella sgiliau;
- Lleihau tlodi;
- Diogelu treftadaeth;
- Gwarchod yr amgylchedd;
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chwaraeon, iechyd a budd cymunedol;
- Datblygu ysbryd a lles cymunedol.

**3.3** Mae'r ffurflen gais a'r rhestr wirio ar gael i'w lawrlwytho'n uniongyrchol o wefan y Cyngor ac anfonwyd 30 o geisiadau ychwanegol. Bydd ceisiadau'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Adfywio ar 10 Chwefror 2017.

## 4 INCWM BUDDSODDI

**4.1** Amcangyfrifiwyd bod yr Incwm Buddsoddi ar gyfer 2016/17 yn £640,358.48 ar 30 Tachwedd 2016. Mae hyn yn seiliedig ar Adroddiad Datganiad Asedau gan Fanc HSBC sy'n rheoli'r Gronfa Fuddsoddi ar gyfer yr Ymddiriedolaeth. Y ffigur hwn yw'r gyllideb y rhagwelir y bydd hi ar gael ar gyfer grantiau i Sefydliadau Gwirfoddol yn 2017/18. Gweler y tabl isod am ddadansoddiad pellach os gwelwch yn dda.

| | **Gwerth Marchnad ar 30/11/16** | **Amcangyfrif o Incwm 2016/17** | **Amcangyfrif o'r elw Blynyddol yn 2016/17** | **Gwerth Marchnad Llai Cost ar y Llyfr h.y. Elw na Wireddwyd / (colled) ar ar 30/11/16** |
|---|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **%** | **£** |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 1,331,658.55 | 0.00 | 0.00% | 0.00 |
| Incwm Sefydlog | 595,207.05 | 24,837.87 | 4.17% | 25,332.07 |
| Cyfanswm Ecwiti | 9,521,025.63 | 322,988.87 | 3.40% | 1,286,826.68 |
| Cyfanswm Buddsoddiadau | 10,017,508.15 | 292,531.74 | 2.92% | 1,082,161.45 |
| | **21,465,399.38** | **640,358.48** | **3.5%** | **2,394,320.20** |

**R MARC JONES**
**TRYSORYDD – YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** **8 RHAGFYR 2016**

Document is Restricted

This page is intentionally left blank